GWASANAETH ARCHIFAU ACHREDEDIG

ACCREDITED ARCHIVE SERVICE

## Cyflwyniad

Achrediad Gwasanaethau Archifau yw safon y Deyrnas Unedig i wasanaethau archifau. Mae'r safon yn diffinio arfer dda ac yn dynodi safonau cytunedig a, thrwy hynny, yn annog ac yn cefnogi datblygiad. Gall gwasanaethau archifau yn y Deyrnas Unedig wneud cais am Achrediad drwy lenwi ffurflen gais i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r safon.

Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o ddogfennau sy'n esbonio ac yn rheoli'r cynllun, sef:

- Y Safon – sy'n rhestru'r gofynion y mae'n rhaid i wasanaethau eu cyflawni er mwyn bodloni'r Achrediad Gwasanaethau Archifau a'r canlyniadau y gellir eu disgwyl.
- Dechrau Arni gyda'r Achrediad Gwasanaethau Archifau – cyflwyniad i'r rhaglen a sut mae'n gweithio.
- Y Canllawiau – sy'n rhoi cymorth i ddeall ac ateb gofynion y safon a llenwi'r ffurflen gais.
- Tabl Graddfeydd – sy'n rhannu gwasanaethau archifau i fathau o wasanaeth er mwyn caniatáu ar gyfer addasu'r gofynion yn unol â graddfa'r anghenion.
- Meini Prawf Cymhwyster – meini prawf sy'n caniatáu i wasanaethau asesu eu cymhwyster ar gyfer achrediad.
- Geirfa – diffiniad o'r geiriau a'r termau a ddefnyddir yn y safon a'r canllawiau.
- Ffurflen gais – ar gyfer gwasanaethau archifau sy'n dymuno ymgeisio am Achrediad Gwasanaethau Archifau.
- Ffurflen Asesu – i'w llenwi gan yr aseswyr a'r dilysydd ac i'w chyflwyno i Banel Achredu'r Gwasanaethau Archifau.

## Strwythur

Mae tair adran i Safon yr Achrediad Gwasanaethau Archifau:

1. Iechyd Sefydliadol
2. Casgliadau
3. Mynediad ac Ymgysylltiad

Caiff y gofynion eu gosod yn y grwpiau a ganlyn:


- Polisïau – maent yn disgrifio cyfeiriad a bwriadau cyffredinol sefydliad yn unol â'r hyn a fynegir yn ffurfiol gan yr uwch-reolwyr.

- Cynlluniau - mae'r rhain yn ddogfennau sy'n edrych at y dyfodol gan osod allan amcanion y sefydliad a nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny, yn unol â pholisïau'r sefydliad ac er mwyn cyflawni ei genhadaeth

- Gweithdrefnau - mae’r rhain yn disgrifio ffordd benodol o gynnal gweithgarwch neu broses (cyfres o weithgareddau sy’n rhyngberthyn neu’n rhyngweithio), er mwyn cyflawni allbwn neu ganlyniad penodol. Gellir dogfennu gweithdrefnau ar ffurf canllawiau gweithredol, cyfarwyddiaduron, llawlyfrau, cyfarwyddiadau, siartiau llif ayb.

# Y Safon

## ADRAN 1: IECHYD SEFYDLIADOL




### 1.1 Cenhadaeth a Gwerthoedd

**Gofyniad 1.1**

**Caiff y gwasanaeth archifau ei lywio gan ddatganiad cenhadaeth sy'n diffinio ei bwrpas yng nghyswllt ei gasgliadau, ac sy'n cysylltu dogfen lywodraethu'r sefydliad â pholisïau a chynlluniau priodol y gwasanaeth archifau. Mae'r ffordd mae'r gwasanaeth archifau'n gweithredu yn adlewyrchu ei werthoedd sefydliadol ac yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb.**

**Canlyniad**

Caiff pwrpas y gwasanaeth archifau ei gyfathrebu'n glir i'r rhanddeiliaid i gyd, a'i ddeall ganddynt, ac mae'n llyw cadarn i weithgarwch y gwasanaeth a'i broses o lunio penderfyniadau. Mae strwythurau priodol ar waith yn y gwasanaeth archifau i werthuso pa mor effeithiol yw wrth weithredu arferion cynhwysol ar draws ei swyddogaethau o ran casgliadau a mynediad.

## 1.2 Strwythurau Llywodraethu a Rheoli

### Gofyniad 1.2

**Mae perthynas y gwasanaeth archifau â'i riant-sefydliad (neu sefydliadau) yn glir ac yn gadarn o safbwynt cyfreithiol. Mae'r uwch-reolwyr yn cydnabod yn ffurfiol bwrpas y gwasanaeth archifau ac yn ei gefnogi; mae'r llinellau awdurdod a'r cyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau rhwng y corff llywodraethu a rheolwyr y gwasanaeth yn dryloyw ac yn effeithiol.**

**Canlyniad**

Mae'r gwasanaeth archifau yn meddu ar strwythurau llywodraethu a rheoli priodol, er mwyn sicrhau casglu, cadwedigaeth a mynediad at y casgliadau yn y tymor hir.

## 1.3 Blaengynllunio

### Gofyniad 1.3

**Mae gan y gwasanaeth archifau flaengynlluniau a phrosesau cynllunio effeithiol sy'n dangos dealltwriaeth dda o'r cyd-destun sefydliadol a'r cyd-destun ehangach y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddo, ac yn ymateb yn briodol.**

**Canlyniad**

Mae'r gwasanaeth archifau yn cynllunio'n effeithiol er mwyn bod yn gynaliadwy yn y tymor hir, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn hyblyg, yn gynhwysol, yn berthnasol ac yn wydn mewn amgylchedd sy'n newid yn fewnol ac yn allanol.

### 1.4 Adnoddau: Lle a storfeydd

**Gofyniad 1.4**

**Ceir amodau deiliadaeth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer pob adeilad a safle sy'n cynnwys archifau a gwasanaethau archifau, yn analog ac yn ddigidol. Mae'r trefniadau'n ddigonol i gadw'r casgliadau eu hunain yn ddiogel ac yn rhwydd mynd atynt. Mae'r trefniadau hefyd yn caniatáu ar gyfer cynllunio effeithiol i'r dyfodol.**

**Canlyniad**

Rhoddir cartref mewn ffordd gyfrifol i'r gwasanaethau archifau ac i'r casgliadau. Caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â rhoi cartref i archifau a gwasanaethau archifau eu cydnabod a'u rheoli'n weithredol drwy brosesau cynllunio priodol gan sicrhau fod y casgliadau'n cael eu diogelu yn y tymor hir.

### 1.5 Adnoddau: cyllid

**Gofyniad 1.5**

**Gall y gwasanaeth archifau ddangos sefydlogrwydd ariannol. Mae arian digonol wedi'i ddynodi i alluogi'r gwasanaeth archifau i gyflawni'r blaengynlluniau mae wedi'u datgan.**

**Canlyniad**

Mae rheolwyr y gwasanaethau archifau yn cyfrannu'n briodol at brosesau perthnasol pennu a rheoli cyllideb a gallant gynllunio i wella gwasanaeth ar sail hirdymor, gan sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

## 1.6 Adnoddau: gweithlu

### Gofyniad 1.6


**Mae gan y gwasanaeth archifau weithlu cynhwysol sy'n briodol o ran profiad a niferoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau a chynlluniau'r gwasanaeth. Mae gweithdrefnau cyflogaeth a pholisïau gwirfoddoli ar waith i gefnogi perfformiad proffesiynol cymwys a lles, a'r broses o ddatblygu'r gweithlu yn barhaus.**

#### Canlyniad

Caiff gwasanaethau archifau eu darparu yn unol â'r safonau proffesiynol a fynnir gan rwymedigaethau cyfreithiol y corff a dyheadau ei flaengynlluniau. Mae'r gweithlu'n glir ynghylch ei rolau a'i gyfrifoldebau a chaiff ei gefnogi i ennill y sgiliau cywir ac i fanteisio ar y cyngor arbenigol cywir i fodloni anghenion cyflawni'r gwasanaeth.

# ADRAN 2: CASGLIADAU

## Trosolwg




## 2.1 Rheoli Casgliadau

**Gofyniad 2.1**

**Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau cydgysylltiedig o reoli casgliadau, sy'n cael eu tywys gan bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau cydlynol. Dylai'r polisïau gynnwys deunyddiau analog a digidol, pan yn berthnasol, a chael eu cymeradwyo gan yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.**

**Canlyniad**

Mae gweithgareddau rheoli casgliadau'r gwasanaeth archifau wedi'u cysylltu mewn ffordd gyfannol ar lefel polisi ac mae cyswllt clir rhyngddynt a datganiad cenhadaeth y gwasanaeth archifau. Mae polisïau integredig yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

## 2.2 Datblygu Casgliadau

### Gofyniad 2.2

**Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau cydgysylltiedig o ddatblygu casgliadau, sy’n cael eu tywys gan bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau cydlynol. Dylai’r dull gweithredu hwn gynnwys deunyddiau analog a digidol, pan yn berthnasol, a chael eu cymeradwyo gan yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.**

**Canlyniad**

Mae gweithgareddau datblygu casgliadau (caffael, gwerthuso a gwerthu) y gwasanaeth archifau wedi’u cysylltu mewn ffordd gyfannol ac mewn ffordd glir â datganiad cenhadaeth y sefydliad. Mae polisïau integredig yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o’r adnoddau sydd ar gael.

### Gofyniad 2.2.1

**Mae gan y gwasanaeth archifau bolisi clir ynghylch datblygu casgliadau, sy’n cwmpasu caffael croniadau goddefol a rhagweithiol, gwerthuso a gwerthu deunyddiau.**

### Gofyniad 2.2.2

**Gall y gwasanaeth archifau ddarparu cynllun sy’n nodi manylion y camau sy’n cael eu cymryd i werthuso a rhesymoli’r daliadau presennol ac i adnabod bylchau a blaenoriaethau ar gyfer casgliadau’r dyfodol, yn unol â’i bolisi ynghylch datblygu casgliadau.**

## 2.3 Gwybodaeth am Gasgliadau

**Gofyniad 2.3**

**Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau cydgysylltiedig, sydd wedi'u dogfennu, o weithredu gweithgareddau gwybodaeth am gasgliadau, sy'n cael eu tywys gan bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau cydlynol. Dylai'r dull gweithredu hwn gynnwys y deunyddiau analog a digidol, pan yn berthnasol, a chael cymeradwyaeth yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.**

**Canlyniad**

Mae gweithgareddau gwybodaeth am gasgliadau (derbyn, catalogio a materion etifeddiaeth) y gwasanaeth archifau wedi'u cysylltu mewn ffordd gyfannol ac mewn ffordd glir â datganiad cenhadaeth y sefydliad. Mae polisïau integredig yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

**Gofyniad 2.3.1**
**Mae gan y gwasanaeth archifau bolisi ar wybodaeth am gasgliadau, sy'n nodi'n benodol sut y caiff y wybodaeth am gasgliadau ei chofnodi a'i chyfoethogi a'r safonau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu defnyddio.**

**Gofyniad 2.3.2**
**Gall y gwasanaeth archifau ddarparu cynllun sy'n nodi'n benodol y camau a gaiff eu cymryd i wella neu edrych eto ar gofnodion catalog cyfredol ac i fynd i'r afael â gwaith catalogio sydd wedi cronni, yn unol â'i bolisi ar wybodaeth am gasgliadau.**

**Gofyniad 2.3.3**
**Mae gweithdrefnau clir, sydd wedi'u dogfennu, ar waith ar gyfer prosesau gwybodaeth am gasgliadau craidd, ac mae'r rheiny'n ddealledig gan y gweithlu perthnasol ac yn cael eu defnyddio ganddynt.**

## 2.4 Gofal a Chadwraeth Casgliadau

**Gofyniad 2.4**

**Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau cydgysylltiedig, sydd wedi'u dogfennu, o weithredu gweithgareddau gofal a chadwraeth y casgliadau sy'n cael eu tywys gan bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau cydlynol. Dylai'r dull gweithredu hwn gynnwys y deunyddiau analog a digidol, pan yn berthnasol, a chael cymeradwyaeth yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.**

**Canlyniad**

Mae gweithgareddau gofal a chadwraeth casgliadau (rheoli adeiladau a chadwraeth adferol ac ataliol) y gwasanaeth archifau wedi'u cysylltu mewn ffordd gyfannol ac mewn ffordd glir â datganiad cenhadaeth y sefydliad. Mae polisïau integredig yn arwain at lai o ddyblygu ymdrechion ac yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

**Gofyniad 2.4.1**
**Mae gan y gwasanaeth archifau bolisi ar ofal a chadwraeth casgliadau, sy'n tywys dull y sefydliad o weithredu cadwraeth ataliol ac adferol, er mwyn sicrhau gwarchodaeth hirdymor y casgliad a mynediad ato.**


**Gofyniad 2.4.2**
**Gall y gwasanaeth archifau ddarparu cynllun sy'n nodi manylion y camau a gaiff eu cymryd i fynd i'r afael â blaenoriaethau cadwraeth ataliol ac adferol, yn unol â'i bolisi ar ofal a chadwraeth casgliadau.**

**Gofyniad 2.4.3**
**Mae gweithdrefnau clir, sydd wedi'u dogfennu, ar waith ar gyfer gofalu'n rheolaidd am gasgliadau ac mae'r rheiny'n ddealledig gan y gweithlu perthnasol ac yn cael eu defnyddio ganddynt.**

**Gofyniad 2.4.4**
**Mae'r gwasanaeth archifau wedi profi cynllun a gweithdrefnau i baratoi ar gyfer trychinebau, sy'n ei alluogi i ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd o argyfwng a sicrhau fod y busnes yn parhau. Mae cynlluniau argyfwng yn berthnasol i bob adeilad sy'n cynnwys casgliadau a gwasanaethau archifau.**

## ADRAN 3: Mynediad ac Ymgysylltiad

**Trosolwg**




### 3.1Polisïau Mynediad ac Ymgysylltu

**Gofyniad 3.1**

**Mae gan y gwasanaeth archifau bolisi clir ar fynediad ac ymgysylltu, sy'n nodi'n benodol y ffyrdd y caiff mynediad ei gynnig a sut yr ymgysylltir â chymunedau, a hynny mewn modd sy'n briodol i ddatganiad cenhadaeth y sefydliad a natur a graddfa ei gasgliad. Dylai'r polisi gael cymeradwyaeth yr uwch-reolwyr, neu awdurdod dirprwyedig priodol.**

**Canlyniad**

Caiff y gwasanaeth archifau ei lywio gan bolisi cytunedig ar fynediad ac ymgysylltu, sy'n cyfathrebu'n glir beth yw'r hawliau mynediad at y casgliad a chynnig y gwasanaeth o safbwynt ymgysylltu. Mae'r polisi yn rhan o'r fframwaith rheoli casgliadau integredig sy'n galluogi cynllunio effeithiol a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd orau bosibl.

### 3.2 Cynllunio a Chynlluniau Mynediad ac Ymgysylltu

**Gofyniad 3.2**

**Mae'r gwasanaeth archifau yn arddangos dealltwriaeth dda o'i gymunedau. Mae ganddo gynlluniau ar waith sy'n nodi manylion y camau a gaiff eu cymryd i ddiwallu anghenion y gymuned a'u gofynion mynediad ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Mae'r cynlluniau'n briodol i ddatganiad cenhadaeth y sefydliad ac i natur a graddfa ei gasgliadau.**

**Canlyniad**

Mae gan y gwasanaeth archifau ddull wedi'i gynllunio o ymdrin â mynediad ac ymgysylltu sy'n seiliedig ar y dystiolaeth o'r angen.

**Gofyniad 3.2.1**
**Mae gan y gwasanaeth archifau ddulliau effeithiol ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth am ei gymunedau, er mwyn dadansoddi a gwerthuso eu hanghenion a'u diddordebau a chynnwys cymunedau nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth yn uniongyrchol.**

**Gofyniad 3.2.2**
**Mae gan y gwasanaeth archifau gynlluniau sydd wedi'u dogfennu i wella'n barhaus fynediad ac ymgysylltiad mewn ymateb i anghenion a diddordebau dynodedig ei gymuned. Eir ati'n frwd i weithredu ac adolygu'r cynlluniau.**

### 3.3 Gweithgareddau ynghylch Mynediad ac Ymgysylltu

**Gofyniad 3.3**

**Mae'r gwasanaeth archifau yn darparu mynediad at ei ddaliadau ac amrywiaeth o ddulliau i gael mynediad at y casgliadau ac i ymgysylltu â hwy. Mae'n cyfathrebu gwybodaeth glir ac ymarferol am y cynnig mynediad ac ymgysylltu sydd ganddo ac yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.**

**Canlyniad**

Mae'r gwasanaeth archifau yn cynnig mynediad da i'w gasgliadau a chyfleoedd da i bobl ymgysylltu â nhw. Rhoddir cymorth i gymunedau gael mynediad at gasgliadau, ac i ymgysylltu â hwy, mewn modd effeithlon a chyda hyder, cyfrifoldeb a gofal.

**Gofyniad 3.3.1**
**Mae amrywiaeth o ddulliau o gael mynediad at y casgliadau ar gael yn ogystal â chyfleoedd i ymgysylltu â nhw. Mae'r rhain yn briodol i ddatganiad cenhadaeth y sefydliad a natur a maint ei gasgliadau.**

**Gofyniad 3.3.2**
**Caiff mynediad priodol ei gynnig at gasgliadau, ar y safle ac oddi arno, a chaiff gwybodaeth ymarferol ynghylch sut i gael mynediad at y gwasanaeth ei chyfathrebu'n effeithiol i bawb.**

**Gofyniad 3.3.3**
**Mae gweithdrefnau effeithiol, sydd wedi'u dogfennu, ar waith ar gyfer rhoi mynediad i ddefnyddwyr a chaiff y gweithdrefnau hynny eu cyfathrebu'n dda.**